# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 14eg IONAWR 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Dafydd Thomas (Cad) - Nebo, Justin Davies, Judith Humphreys, Erfyl Williams, Barry Bracegirdle - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni, Harry Owen, Siân Dafydd, Gareth Jones, Nigel Williams - Talysarn, Gerallt Hughes - Nantlle. Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Dylan Herbert, Ceri Owen - Penygroes.

2. **Datgan buddiant** – pwynt 12 Siân Dafydd – Ceisiadau cynllunio.

3. **Cofnodion cyfarfod 10fed Rhagfyr 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - mater a oedd yn codi oedd ciosg Tanrallt. Gan fod y ciosg wedi ei leoli ar dir fferm bydd yn rhaid cael caniatâd gan y tir feddiannwr i'r Cyngor Cymuned gael mabwysiadau'r ciosg. Trafodwyd, cynigwyd ac eiliwyd i'r clerc gysylltu gyda pherchennog y tir a hefyd i gysylltu gyda BT i ddweud ein bod yn y broses o wneud hyn.

5. **Sedd wag Ward Penygroes** - roedd llythyr wedi ei dderbyn gan Dylan Herbert yn dweud ei fod yn ymddiswyddo o'i sedd ar Ward Penygroes. Gofynnwyd i'r clerc ategu diolch y cyngor yn fawr i Dylan am ei waith i'r gymuned dros y blynyddoedd a bydd yn golled ar ei ôl. Angen nawr hysbysebu'r sedd wag ar wefan y cyngor a thudalen Facebook.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Rhoddwyd cyfle i bawb godi unrhyw fater. Adroddodd Cyng. Thomas ei fod dal yn disgwyl am arwyddion i gael eu rhoi fyny wrth Ysgol Llanllyfni. Dywedodd fod pethau yn symud mlaen yn araf gyda thrwsio'r bont ar Lôn Coed Cae, Llanllyfni. Mae hefyd wedi gofyn am fin halen/graen i Dalysarn. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith diflino i'r gymuned.

7. **Golau Nadolig** - esboniwyd beth sydd yn mynd ymlaen gyda'r golau a paham eu bod dal i fyny. Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud bod y golau yma bellach yn rhy fawr ac na fyddwn yn cael eu gosod fyny eto yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd newid yn y tywydd a'r stormydd diweddar rydym wedi bod yn cael. Trafodwyd sut i symud mlaen gyda hyn gan fod yna werth arian o olau yn berchen i'r cyngor cymuned. Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r cwmni ble prynwyd y golau ac maen nhw yn fodlon eu prynu yn nôl. Yn anffodus teimlwyd nad oes dim dewis ond gwneud hyn er na chaiff y cyngor lawer o arian nôl amdanynt bellach. Wedi holi hefyd ynglŷn â chael storfa ym Mhenygroes i storio'r golau tan fydd y cwmni yn medru dod i'w casglu. Cynigwyd ac eiliwyd i barhau gyda hyn ac yna prynu golau fel mae Cyngor Gwynedd yn ei gynghori i ni eu cael. Gofynnwyd gan fod golau Talysarn wedi eu gosod ar y Ganolfan a dim ar bolion y cyngor a fuasai yn syniad i gadw'r rhain - dim yn gweld pam lai i gadw'r rhain. Cynigwyd ac eiliwyd i wneud hyn.

8. **Taflen ariannol a chyllid** - **Praesept 25/26** - diolchwyd i Gareth am ei waith yn edrych fewn i hyn ac am baratoi awgrymiadau i bawb edrych drostynt cyn y cyfarfod. Trafodwyd a ddylid ei godi, y rhan fwyaf yn meddwl bod yn amser gan nad yw'r cyngor cymuned wedi ei godi ers 21/22. Trafodwyd ymhellach beth fyddai'r gost i'r trigolion os yn ei godi ac ar ôl trafod cynigwyd ac eiliwyd i'w godi o £50,000 i £53,000. Cytunodd y mwyafrif â hyn felly'r clerc i yrru'r ffurflen wedi ei arwyddo i Gyngor Gwynedd i ofyn am £53,000. **Ceisiadau ariannol** - dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau hyn 31/01/25 ac felly angen cyfarfod wedyn i drafod. Bydd y cyfarfod nos Iau, 6ed Chwefror am 7yh yn Ganolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

9. **Materion Pentrefi** - **Penygroes** - traffic wedi parcio ar y Stryd Fawr yn gwaethygu ac yn achosi problemau. Y grisiau wrth ymyl Wynnstay ei gwaelod eisiau eu glanhau hyd at y gyli - angen dilyn fyny ar hyn gan nad yw'r gwaith wedi ei wneud ers y tro diwethaf i'r gŵyn gael ei chodi. Twll yn y ffordd wrth Feddygfa Corwen House. Twll wrth 80 Trem Yr Wyddfa dal heb gael sylw. Angen holi beth sydd yn digwydd gyda hen safle Express Motors. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn beth yw'r siawns o fedru gosod CCTV ar bolyn sy'n edrych ar y safle bws er mwyn ceisio gweld pwy sy'n malurio a rhoi stop arnynt. Cysylltu gyda Designer Signs i drwsio'r safleoedd bws unwaith eto. **Llanllyfni** - llawer o gwynion wedi ei derbyn am faw ci ar hyd y palmentydd - gofyn a oes posib cael y warden i ddod o gwmpas. Rhywbeth angen ei wneud ynglŷn ar car sydd wedi ei barcio yn beryglus ar y palmant yn Felin Gerrig. **Talysarn -** cwynion am faw ci yma hefyd ar y palmentydd, ac yn yr ardd gymdeithasol. Y ffens yng nghae chwarae Bro Silyn angen ei atgyweirio - Cyng. Thomas am edrych fewn i hyn. **Nebo -** tyllau yn y ffordd rhwng Eisteddfa ar Capel ac angen sylw. Y clerc i gysylltu gyda'r sefydliadau perthnasol ynglŷn ar materion uchod.

Bu i Siân Dafydd orfod ymddiheuro a gadael y cyfarfod.

10. **Adroddiad cyfarfod is-bwyllgor a gynhaliwyd** – nid oedd cyfarfod wedi ei gynnal.

11. **Llwybrau a Mynwentydd** - adroddwyd bod sbwriel dal yn cael ei adael o dan yr arwydd ym Mynwent Macpela. Gofyn i'r contractwyr torri gwair fynd yno i'w glirio.

12. **Ceisiadau Cynllunio** -

*- C24/1028/17/DT – Tan y Bryniau, 83 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – dymchwel porth a chodi porth newydd – DIM GWRTHWYNEBIAD*

*- C25/0001/17/Ll - 19 Ffordd yr Orsaf, Penygroes - newid defnydd prif gartref i lety gwyliau tymor byr - GWRTHOD ar y sail bod yna brinder tai i bobl leol i'w prynu/rhentu. Cynigwyd, eilwyd a phenderfynwyd hyn yn unfrydol.*

13. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Nid oedd dim yn codi ohonynt.

14. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.
- R J Electrics – galw allan ar ôl difrod storm = **£566.81**
- *Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00***

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 11eg Chwefror 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________